# Comisiwn y Senedd

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **External** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 4 Mai 2020** |
| Amser: | **14.05 - 15.25** |

## Cofnodion: AC(5)2020(3)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AS (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AS**<br>**Rhun ap Iorwerth AS**<br>**David J Rowlands AS**<br>**Joyce Watson AS** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**<br>**Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd**<br>**Arwyn Jones, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Gareth Watts, Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd**<br>**Anna Daniel, Pennaeth Trawsnewid Strategol**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd**<br>**Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.a Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Ni chafwyd ymddiheuriadau.

1.b Datgan buddiannau

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

1.c Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd bod cofnodion 16 Mawrth yn gofnod cywir.

## 2 Cyllideb Atodol 2020-21

Trafododd y Comisiynwyr gynnig y dylid gosod Cyllideb Atodol, i leihau cyllideb 2020-21 y Comisiwn o £61.411 miliwn i £59.575 miliwn.

Diben hynny oedd adlewyrchu'r cyhoeddiad gan Drysorlys Ei Mawrhydi bod gweithredu Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) 16 – Prydlesi i gael ei ohirio am 12 mis tan 1 Ebrill 2021. Nid yw hyn yn newid gofyniad arian parod 2020-21 y Comisiwn o £56.075 miliwn.

Cytunodd y Comisiynwyr i gyflwyno Memorandwm Esboniadol (Atodiad un), i adlewyrchu'r cyhoeddiad gan Drysorlys Ei Mawrhydi, a nodwyd y newid yn yr amserlen graffu sy'n gysylltiedig ag amserlen cyllideb Llywodraeth Cymru.

Byddai'r Memorandwm Esboniadol yn cael ei osod yn y ffordd arferol.

## 3 Coronafeirws

Rhoddwyd crynodeb i'r Comisiynwyr o'r dull, y penderfyniadau a'r camau a gymerwyd gan y Comisiwn i reoli effaith pandemig Covid-19 er mwyn cynnal gweithgaredd seneddol hanfodol a chadw Aelodau, staff a'r cyhoedd yn ddiogel.

Hefyd, nodwyd crynodeb o'r penderfyniadau a wnaed gan y Bwrdd Taliadau hyd yma ar yr ymateb i Covid-19.

Trafododd y Comisiynwyr yr hyn a gyflawnwyd hyd yma a diolchwyd i'r holl staff a fu ynghlwm â'r gwaith cefndir i alluogi parhad busnes seneddol. I ddilyn, cafwyd trafodaeth ehangach am y cyfnod sydd i ddod. Trafodwyd y berthynas rhwng y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor Busnes ynghylch busnes a'r adnoddau a ddarperir i gefnogi'r gweithgareddau hynny. Cydnabuwyd y gofynion a roddir ar dimau penodol drwy weithio o bell a phwysigrwydd cydnerthedd a dulliau cyflawni cadarn.

Gofynnodd y Comisiynwyr am gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau o ran cynllunio ar gyfer y camau nesaf.

## 4 Y wybodaeth ddiweddaraf am Ddiwygio'r Senedd

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Comisiynwyr cyn dyddiad gweithredu'r newid enw.

## 5 Adroddiad blynyddol – sylwadau'r Comisiynwyr ar y drafft

Roedd y Comisiynwyr wedi trafod fersiwn ddrafft o adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiwn yn ymwneud â 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2020, er mwyn rhoi sylwadau cyn cwblhau'r adroddiad.

Roedd y Comisiynwyr yn croesawu'r gwaith hyd yma gan gydnabod y byddai diweddariadau ychwanegol i adlewyrchu digwyddiadau diweddar. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys adran edrych ymlaen.

Bydd yr adroddiad yn cael ei osod a'i gyhoeddi ar-lein yn dilyn cymeradwyaeth derfynol ym mis Mehefin.

## 6 Papurau i'w nodi:

6.a Y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y Bwrdd Gweithredol (Penderfyniadau Recriwtio)

Nododd y Comisiynwyr y crynodeb arferol o'r penderfyniadau recriwtio a ddarperir i holl gyfarfodydd y Comisiwn.

## 7 Unrhyw fater arall

Ystyriodd y Comisiynwyr amseriad cyfarfodydd yn y dyfodol os bydd patrwm cyfarfodydd y Pwyllgor Busnes yn parhau.

Yn y cyfnod ers y cyfarfod diwethaf, roedd y Comisiynwyr wedi gwneud tri phenderfyniad brys.
Roedd y rhain yn ymwneud â darlledu'r cyfarfod llawn a chyfarfodydd phwyllgorau ac ymestyn y cyfnod pan na fydd gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn cael eu cynnal.
Cafwyd briffio ychwanegol hefyd i egluro'r adnodd ychwanegol, er mwyn cefnogi'r flaenoriaeth strategol o ymgysylltu.